

papur



priordy



**TYDI A WNAETH Y WYRTH, O GRIST, FAB DUW,
TYDI A RODDAIST IMI FLAS AR FYW**

**W Rhys Nicholas (1914-1996)
*Caneuon Ffydd 791***

*Dewiswyd gan Catrin Jones
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 334
PAPUR MEHEFIN 2020**

Nodyn gan ein Gweinidog

Amser

Ystyriwch hyn. Pe bai eich banc yn rhoi £86,400 yn eich cyfrif bob bore gyda'r rhybudd nad oes modd i chi gario'r balans ymlaen i'r diwrnod canlynol ... nac ychwaith i gadw unrhyw arian yn eich cyfrif, ac y byddai'n codi ohono unrhyw arian sydd gennych yn weddill ar ddiwedd y dydd, beth fydddech chi'n ei wneud? Wel tynnu pob ceiniog allan ohono yn ystod y dydd wrth gwrs, fel na fyddai dim ar ôl i'r banc gael ei gymryd!



Mae gennym oll fanc tebyg a'i enw yw Amser. Bob bore, mae'n gosod 86,400 o eiliadau yn ein cyfrif. Bob nos, mae'n cael gwared ar unrhyw ganran o'r amser nad ydym wedi buddsoddi ynddo. Nid yw'n caniatáu cario'r cyfalaf ymlaen i'r diwrnod wedyn, nac ychwaith yn cynnig gorddrafft i ni. Bob bore, mae'n agor cyfrif newydd i ni. Os na lwyddwn i ddefnyddio'r hyn sydd yn y cyfrif, ein colled ni ydyw. Does dim troi'n ôl. Does dim modd tynnu yfory o gyfrif heddiw.

Llenwi'n hamser

Amser yw un o'n hadnoddau mwyaf gwerthfawr. Gall amser fod yn wag neu'n llawn. Gellir ei lenwi â phethau di-fudd neu â phethau sy'n rhoi pwrpas a chyfeiriad i'n bywydau. Fel gyda phopeth mewn bywyd, gallwn ei ddefnyddio er gwell neu er gwaeth, yn greadigol neu'n ddinistriol, yn hunanol neu'n hael. Gallwn naill ai fod yn feistri ar ein hamser neu'n gaethweision iddo; ei ddefnyddio, neu adael iddo'n defnyddio ni.



O ganlyniad i COVID-19, rydym wedi cael ein gorfodi yn ystod y cyfnod rhyfedd a dryslyd hwn i ailgynllunio'r ffordd rydym yn defnyddio'n hamser. Ar y naill law, mae rhai'n gweld bod ganddynt ormod o amser ar eu dwylo - oriau gwaith wedi'u torri neu wedi'u colli'n llwyr, bywyd cymdeithasol ar stop, yn fregus eu iechyd ac yn gaeth i'w

cartrefi, y dydd yn hir, y meddwl yn crwydro a'r unigrwydd yn llethol. Mae eraill yn gwerthfawrogi amser yng nghwmni'r plant yn hytrach na'u cludo ar frys o'r naill weithgarwch i'r llall, ond bod yr her o weithio o adref a cheisio addysgu'r plant yn fawr. Mae gweithwyr allweddol wedi gorfod cynllunio'u hamser yn wahanol er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol a gofalu am eu teulu. Beth bynnag yw'n hoed a'n hamgylchiadau, rydym oll wedi gorfod ailgynllunio'r ffordd rydym yn defnyddio'n hamser.

Ewyllys Da

Un peth sy'n amlwg yw bod yr amser wedi'i lenwi gan weithredoedd o ewyllys da yn ein cymuned a thu hwnt. Aeth y rhai sy'n medru gwneud, ac sy'n rhydd a diogel i wneud, allan o'u ffordd i gwrdd ag anghenion eraill. Dyma beth yw defnyddio'n hamser yn adeiladol. I'r gwrthwyneb, dewis eraill oedd defnyddio'u rhyddid a'u hamser er eu lles eu hunain e.e. drwy fentro ym mhob ffordd i gyrraedd eu cartrefi gwyliau, gan ddiystyru'n llwyr y perygl y gallent ei achosi i eraill. Da o beth fyddai i ambell un dreulio'r amser yn dysgu bod gan Gymru ei llais ei hunan a'i bod yn abl i wneud ei phenderfyniadau ei hunan.

Mae gorfod ailgynllunio'n hamser yn ein herio i feddwl o ddifri am werth amser. Gadewch i ni ymrwymo i ddefnyddio'n hamser at bwrpas da.



SUT bydd balans eich cyfrif banc Amser chi erbyn heno tybed?

Gweddïwn

Yn dy law di, Arglwydd, y mae'n hamseroedd;
cyflwynwn ein dyddiau oll i ti,
gan ofyn am dy gymorth
i gyflawni dy ewyllys drwyddynt.

Amen



**DAW LLANW WEDI'R TRAI
DAW ENFYS WEDI'R GLAW**

Mis Mehefin	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 28:16-20
Wythnos 2	Rhufeiniaid 5:1-8
Wythnos 3	Mathew 10:24-39
Wythnos 4	Mathew 10: 40-42

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Elisabeth Davies a Catrin Jones a llu o deuluoedd am y lluniau'r mis hwn.



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

MARGARET LLOYD-EVANS

ac

EURWEN A MALCOLM JONES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn.


CERDYN POST I GODI CALON



Diolch yn fawr iawn am y cerdyn post hyfryd a dderbyniodd holl deuluoedd yr Ofalaeth gan ein Gweinidog a'r neges o obaith y mae'n ei gyfleu

ENFYS YN Y FFENEST

**Mae enfys yn y ffenest,
pob ffenest yn y stryd
ag enfys fach i ddiolch
i'r gweithwyr gorau i gyd.**



**Mae enfys yn y ffenest
a'r ffenest eto draw
ac enfys arall wedyn
yn obaith wedi'r glaw.**

**Llond gwlad o guro dwylo
a chanu'r anthem fach
llond gwlad o aros adref
i gadw pawb yn iach.**

**Ac er bod sgwrsio'n gysur
gydag eraill dros y we,
mae hiraeth yn fy nghalon
am weld ffrindiau dros y lle.**

**A phan gaf unwaith eto
fynd allan i gwrdd â'r criw
bydd enfys dros y cyfan
a bydd y byd mewn lliw.**

Tudur Dylan Jones

**CAERFYRDDIN ADEG Y PASG
DRWY LENS CAMERA
TUDUR DYLAN JONES**



**Pont
Caerfyrddin**

**Heol
Awst**



**Ambiwylans
ger
y Priordy**

Ac wedi elwch tawelwch fu

Rhagor o luniau yn ein rhifyn nesaf

TUDALEN BLAEN


Rheswm Catrin Mair Jones dros ddewis yr emyn Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw

Rhaid cyfaddef fod yr emyn *Pantfyfedwen* yn ddewis naturiol i fi fel croten o Geredigion, ac mae'n agos iawn at fy nghalon. Cefais fy magu mewn pentref bach o'r enw Cellan, ac mae cysylltiad agos iawn rhwng yr emyn hwn ag ardal leol Llambled. Erbyn heddiw, wrth gwrs, mae'n un o emynau mwyaf poblogaidd ac adnabyddus ein dydd.



Hoffwn ddechrau drwy sôn am hanes a chefnidir diddorol yr emyn. Mae'n debyg y cafodd y **Parch W. Rhys Nicholas** ei symbylu i ysgrifennu geiriau'r emyn yn dilyn ei bregeth ar yr adnod '*Ile yr oeddwn i yn ddall, yr wyf yn awr yn gweled*' (loan

9.25). Cafodd ei wobrwyo yn Eisteddfod Rhys Thomas James Llambled am ei eiriau ym 1967 a'r flwyddyn ganlynol roedd cystadleuaeth i gyfansoddi emyn-dôn i'r geiriau hynny. Yr athro Ian Parrott oedd yn beirniadu ac fe wobrwwyd y dôn 'Arobryn' yn wreiddiol. Ond roedd teimlad ymysg yr wythawd a ddewiswyd i berfformio'r darn nad oedd y dôn



fuddugol yn un gynulleidfaol a gofynnwyd i'r beirniad ailystyried ei ddewis. 'Pantfyfedwen' oedd yn ail yn y gystadleuaeth a chreodd geiriau W. Rhys Nicholas a thôn gelfydd a chrefftus **Eddie Evans** uniad perffaith.



Maen nhw'n dweud bod pethau pwysig a nodweddiadol yn digwydd fesul tri - a dyma grynodedd felly: geiriau W. Rhys Nicholas yn fuddugol ym 1967, tôn Eddie Evans yn cael ei dewis ym 1968 a minnau'n cael fy ngeni yn ysbyty Bronglais yng Ngorffennaf 1969!

Mae clywed 'Pantfyfedwen' yn cael ei chanu'n dod â gwefr yn sicr. Mae'n rhoi ias i lawr fy nghefn pan glywaf y geiriau a'r dôn ac mae'r 'Halelwia' yn codi'r to ac yn cyrraedd uchafbwynt ar y diwedd. Yn ôl pob sôn, awgrym Beti (gwraig W. Rhys Nicholas) oedd cynnwys yr 'Halelwia' gan fod angen gwell clo ar yr emyn. Roedd yn llygad ei lle yn fy marn i! Yn yr hinsawdd sydd ohoni, pan fo'n byd wedi'i chwalu a'i newid dros nos, mae angen gorfoledd yr 'Halelwia' ar bob un ohonon ni yn ein bywydau. Mae rhywbeth hudolus yn perthyn i'r geiriau a'r dôn ac rwyf wrth fy modd gyda'r emyn.

Adrian a Huw a'r Meudwyo Mawr!

Mae Adrian Evans, ein Trysorydd, a Huw Michael, ein



Hysgrifennydd Ariannol, nid yn unig yn cydweithio'n agos yn rhinwedd eu swyddi yn y Priordy ond hefyd yn rhannu o leiaf dri diddordeb cyffredin, sef canu corawl, golff a rygbi! Mae'r ddau'n aelodau brwd o Gôr Meibion Caerfyrddin, yn hoff iawn o rownd o golff ac wrth eu bodd yn gwylio rygbi. Ys gwn i sut maen nhw'n ymdopi yn y cyfnod hwn o

feudwyo? Dyma ofyn tri chwestiwn iddyn nhw:

Beth sy'n llanw'r bwlch yn eich bywyd nawr nad yw Côr Meibion Caerfyrddin yn gallu cynnal ymarferion na chymryd rhan mewn cyngherddau?



Adrian

Wrth gwrs mae dyletswyddau'r Trysorydd yn parhau gan fod costau misol gyda'r Ofalaeth. Rwy'n diolch i'r traean o'n haelodau sy'n cyfrannu'n gyson drwy archeb Banc ac mae amryw o sieciau wedi fy nghyrraedd drwy'r post. Diolch i'r "Ap" sydd gan y Banc sy'n caniatáu i mi eu talu i mewn dros y ffôn.



Rwyf yn gweld eisiau ymarfer Côr bob nos Fawrth a gan fod cyngerdd 1,000 o leisiau yn 2022 byddaf yn ceisio neilltuo ychydig oriau i edrych dros eiriau'r caneuon ac yn ymarfer lein y tenor. Daw cyfle i ymarfer canu hefyd gyda Dechrau Canu Dechrau Canmol ar nos Sul ynghyd â'r oedfaon

eraill. Mae cymaint o bethau wedi eu gohirio yn cynnwys y daith i Ypres a Ghent ond mae'n edrych fel pe baen ni'n mynd i gymryd rhan mewn cyngerdd mawreddog yn Stadiwm y Principality i ddiolch i GIG pan ddaw'r helynt yma i ben.

Huw

*Rwy'n gweld eisiau'r ymarfer wythnosol ar nos Fawrth a'r gwmnïaeth
ryn ni'n ei gael yno, a'r perfformiadau achlysurol wrth
gwrs. Rwy'n ceisio ymarfer rywfaint gartre yn wythnosol - dysgu
geiriau'r caneuon newydd ar gyfer Cyngerdd y Mil o
Leisiau yn Neuadd Albert ym mis Ebrill 2022 (yn lle
2021 oherwydd y feirws) yn bennaf! Roedd taith 5
niwrnod i Wlad Belg i fod ym mis Mehefin, ond wrth
gwrs fydd hynny ddim yn digwydd eleni nawr sy'n
siomedig. Gobeithio y gallwn aildrefnu ar gyfer rywbryd
y flwyddyn nesaf. Rwy hefyd yn ceisio dysgu Sbaeneg
ar yr app "Duolingo" am hanner awr bob dydd sy'n
creu diddordeb a thipyn o hwyl!*



Sut ydych chi wedi cadw'n heini yn ystod y cyfnod y bu'r cyrsiau golff i gyd ar gau?

Adrian

*Mae yna ddigon i'w wneud. Mae'r tywydd wedi bod mor braf ac mae'n
fendigedig cael treulio amser allan yn yr ardd. O
ran cadw'n heini, mae'r ardd yn edrych yn fwy
parod nag erioed. Dw i wedi bod yn paentio'r
ffens, gwagio'r biniau compost a gosod y gwely
ffa dringo, bwydo, sgariffio a thorri'r lawntiau.
Mae'r car wedi cael ei olchi'n amlach nag
erioed. Dw i wedi glanhau'r clybiau golff a'u rhoi
i gadw yn y garej yn barod ar gyfer ailddechrau.*



*Dw i'n ymarfer ychydig bach o bytio ar hyd llawr y garej! Tacluso'r
garej fydd nesaf a dw i'n falch o glywed fod y Tip wedi ailagor. Rydyn
ni'n ceisio mynd am dro bob dydd gan anelu am Gastell Pigyn neu
Abergwili. Dw i ddim yn gweld gormod o bobl ar y daith yma ac rwy'n
edrych ymlaen at gael cwrdd â'r cwmni nôl ar y cwrs golff yn Derllys.*

Huw

*Trueni ein bod wedi gorfod stopio'r golff yn
gyfangwbl a dweud y gwir, gan nad yw'n anodd
cadw pellter 2m wrth chwarae ar y cae, ond mae
Cwrs Caerfyrddin a Derllys wedi ailagor er 18
Mai ar gyfer chwarae unigol neu gydag un aelod
o'r teulu. Mae hyn yn gam ymlaen o leiaf. Yn ystod y cyfnod cyn hynny
ro'n i'n ymarfer "tsipio" peli golff o dro i dro ar y lawnt gefn, ond yn
segur mae'r clybiau eraill ar hyn o bryd. Ryn ni'n mynd am dro o ryw*



dair milltir sawl gwaith yr wythnos ac yn achlysurol byddaf yn mynd mas ar gefn y beic neu'n cerdded / loncian i ben draw Tre Ioan ac o gwmpas y ffordd newydd lan i'r coleg a nôl i'n tŷ ni, ond rhaid cyfaddef nad yw hyn gymaint o hwyl â tharo'r bêl wen o gwmpas cae Rhydymarchog!

Beth ydych chi'n feddwl fydd sgil-ffeithiau Covid-19 ar rygbi yng Nghymru?

Adrian

Mae tocyn gêm Cymru a'r Alban gen i yn saff erbyn bydd y gêm yn cael ei hailchwarae. Roedd y Scarlets yn gwneud yn eithaf da eleni gyda Brad Mooar, yr hyfforddwr yn ei flwyddyn gyntaf ond sy'n gadael i fod yn hyfforddwr ymosod y Crysau Duon, ac yn dal yng



nghestadleuaeth Ewrop. Gobeithio y caiff Glenn Delaney, yr hyfforddwr newydd, fwy o lwc y flwyddyn nesaf. O ran y dyfodol, rwy'n hoffi awgrym "Jiffy" [Jonathan Davies - cyn faswr Cymru a'r sylwebydd rygbi] sydd am i'r wyth cyn glybiau dosbarth cyntaf

ddechrau chwarae cyn y rhanbarthau gan y byddai hynny'n golygu tipyn llai o deithio. Pryd fydd Cymru'n ôl yn chwarae mae'n anodd dweud. Dw i ddim yn disgwyl gweld unrhyw gêm fyw cyn yr Hydref a gemau rhyngwladol y flwyddyn nesaf. Dal i freuddwydio!

Huw

Roedd yn dipyn o siom pan ohiriwyd gêm Cymru a'r Alban ar 14 Mawrth a hynny ar y funud olaf, ond erbyn hyn mae'n anodd dadlau gyda'r penderfyniad. O ystyried ei bod yn amhosibl cadw pellter wrth chwarae rygbi, gallwn fod yn disgwyl am fisoedd eto cyn y gwelwn gemau'n ailddechrau. Does dim gobaith ailddechrau'r tymor presennol am wn i, ac mae amheuon am y tymor nesaf, yn enwedig p'un a fydd torf yn cael ei chaniatáu. Ar y llaw arall ryn ni wedi cael cyfle i weld ailddarlledu rhai o fuddugoliaethau Cymru o'r gorffennol ar S4C!



Diolch am ateb y cwestiynau fechgyn. A gobeithio'n wir y byddwch yn gallu ailafael yn y canu a'r golff a'r rygbi'n llawn cyn bo hir iawn!

Pendilio (yn amser COVID)

Tic-toc, tic-toc,
fe arafodd bysedd y cloc
a'r hen bendil yn dod i ... stop.

Mae'r drysau'n glep dan glo a'r phawb yn meudwyo,
am y tro,
daeth amser i olygu dim,
fe gollon y gallu i gyfri,
a ninnau wedi drysu,
pob diwrnod yn rhy debyg i'w gymydog,
yr wythnosau wedi toddi.


Dyma ni, ar ganol amser sero
ble gallai rhywun fynd o'i go'
ac yno,
fe wnawn bendilio
rhwng ofni a gobeithio,
rhwng chwerthin a chwato,
rhwng byw yn fach a breuddwydio.

Mae'n llonydd ar y lonydd
a'r byd i gyd yn ddigon bach bellach i'w ddala
rhwng bys a bawd,
yn ddigon crebach a phitw i'w gadw yng nghledr y llaw,
neu ei anghofio'n rhy rhwydd
ym mhoced rhyw got anghyfarwydd.

Ac yn y dim hirfaith hwn sydd heb derfyn nac ymyl iddo,
fe deimlwn ni'r pendil yn dechrau symud eto,
gan sylwi ar sŵn araf tic-toc curiad calon drom y cloc
yn nhawelwch marw'r tŷ
ble mae'r llwch yn rhy ddiog i gronni,
ble mae heddiw yn ddoe ac yfory,
ble does dim bore na phrynhawn na heno wedyn
ble mae'r un frawddeg ar ei hanner ers meitin.

Mae symud i'w synhwyro ar y stryd
ac mae amser yn dal yn fyw o hyd.

Elinor Wyn Reynolds.....



Diwrnod Aer Glân

Cymru

20 Mehefin 2020



Mae'n siŵr eich bod chi i gyd wedi sylw fel mae ansawdd yr aer wedi gwella ers i fesurau arbennig ddod i rym er mwyn dod i'r afael â Covid-19. Barn llawer yn bod y ffyrdd yn dawelach, yr awyr yn burach, y nentydd a'r afonydd yn fwy gloyw a bod mynd am dro'n brofiad llawer mwy pleserus y dyddau hyn.

Mae ystadegau swyddogol yn cadarnhau bod ansawdd yr aer yn well.



yn ôl data'r **Ganolfan Atmosfferig Genedlaethol** mae lefelau nitrogen deuocsid a gronynnau llygredd llawer yn is na'r lefelau arferol am yr amser hwn o'r flwyddyn.

Mae gwyddonwyr wedi cymharu lefel llygredd aer eleni gyda'r cyfartaledd o'r pum mlynedd diwethaf, gan edrych ar ddata deg o ddinasoedd y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Caerdydd. Mae'r data'n dod o orsafoedd monitro i ffwrdd o'r prif ffyrdd ble mae pobl yn byw.


Mae adroddiad gan y **Ganolfan Ymchwil ar gyfer Ynni ac Aer Glân [energyandclean air.org]** yn amcangyfrif fod 11,000 o farwolaethau o ganlyniad i lygredd aer wedi'u hosgoi yn Ewrop yn ystod mis Ebrill, yn cynnwys 1,752 yn y Deyrnas Unedig.



Mae llygredd aer yn derm cyffredinol am lawer o wahanol fathau o lygredd yn yr aer o'n cwmpas. Gall yr holl lygryddion hyn gael eu hanadlu i mewn a'u hamsugno i mewn i'n corff. Caiff gwahanol fathau o lygredd aer eu hachosi gan wahanol bethau. Gan amlaf, mae llygredd aer yn anweledig i'r llygad noeth.

Mae trafnidiaeth yn un o brif ffynonellau llygredd. Mae nitrogen deuocsid yn cael ei ryddhau o gerbydau a phrosesau diwydiannol eraill, ac mae'r gwenwyn yn gallu gwneud cyflyrau fel asthma neu fronicitis yn waeth.

Ond gyda llai o geir yn tagu'r ffyrdd a nifer bach yn unig o jetiau yn hedfan uwchben mae'r awyr yn llawer mwy disglair! Yn debycach yn wir i'r hyn a welir yn unig ar ynysoedd trofannol pell.



Go brin y bydd y newid hwn dros amser cymharol fyr o bosib yn ddigonol ynddo'l hunan i wneud gwahaniaeth mawr i iechyd cyhoeddus yn yr hirdymor ond o leiaf mae'n dangos beth sy'n bosibl. O edrych ymlaen rhyw ddeng i ugain mlynedd pan fydd llawer o gerbydau'n rhai trydan, mae'n bosib y bydd yr awyr yn edrych yr un mor ddisglair yn ein dinasoedd. Mae hefyd bosibilrwydd dan drefn y 'normal' newydd y bydd pobl yn sylweddoli nad oes angen iddynt deithio cymaint a threulio cymaint o oriau gwaith yn y swyddfa, ac mae hynny'n gallu cael dylanwad mawr a chyflym ar yr aer a'n lles personol.

Mae'r clefyd Covid-19 yn un dieflig ond mae ymyl arian i bob cwmwl du a hynny yw bod yr aer yn ein dinasoedd yn llawer glannach. A bonws ychwanegol yw bod yr awyr las yn cael effaith seicolegol cadarnhaol arnom, hyd yn oed os ydym yn gaeth i'r tŷ. O leiaf, mae cael edrych allan ar awyr las yn ysgafnau'r hunanyysu i ryw raddau beth bynnag!



Mae Diwrnod Aer Glân Cymru, a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn rhan o ymgyrch Diwrnod Aer Glân ledled y Deyrnas Unedig. Mae'n gyfle i wybod mwy am lygredd aer, rhannu gwybodaeth, a gwneud yr aer yn lanach ac iachach i bawb. Mae Llywodraeth Cymru, er enghraifft, wedi ariannu

Cyngor Dinas Caerdydd fel y gall weithredu cyfres o fesurau er mwyn gwella ansawdd aer yn ogystal â'i gwneud hi'n haws i bobl gerdded a beicio yng nghanol ein prifddinas.

Mae llygredd aer yng Nghymru'n gallu effeithio'n fawr arnom ond gallwn wneud llawer iawn o bethau bach i'w wella ac edrych ar ôl ein hiechyd ein hunain ac iechyd pobl eraill. Mae'r cyfnod hwn o ymbellhau wedi dangos hynny i ni'n glir.



ADNODDAU AR GYFER YSBYTY GLANGWILI



DYDDIADUR WYTHNOS CATRIM GWYN

Dydd Sul

Wel, mae hi'n ddiwrnod o saib ac o orffwys i rai ar ddydd Sul, ond nid yn ein tŷ ni. Heddiw fe adeiladais i dŷ!! Ond na, nid tŷ cyffredin o frics a



sment, ond tŷ allan o gardfwrdd (a lot o 'duck tape!'). Treuliais oriau yn torri'r bocs (gan ei fod yn lot rhy fawr i fynd drwy'r drws) ac yna yn ei sticio yn ôl at ei gilydd, yn peintio'r tu allan ac ychwanegu lle tân (ffug!) ac yn ordro Rhydian i nôl y goleuadau Nadolig o'r atig er mwyn i fi roi'r 'finishing touches'. Nid yw'n dŷ crand ond gobeithio bydd yn cadw'r merched yn brysur yn y bore i Mam a Dad gael bwyta brecwast mewn tawelwch.



Dydd Llun

Fe gafon ni frecwast mewn tawelwch! Tra bo Greta a Martha yn chwarae yn y tŷ bach twt cefais gyfle i uwchlwytho gwaith i ddisgyblion y dosbarth ar *Teams* ac ateb e-byst ysgol. Wedi gorffen darllenais dipyn i Martha, unwaith bysen i'n gorffen un stori byse hi'n codi i nôl llyfr arall dro ar ôl tro. Gan bo Martha yn cael bach o sylw fe gododd yr awydd ar Greta i wneud bach o ysgrifennu, felly dyma ni'n eistedd lawr i ysgrifennu brawddeg am y tŷ bach twt. Cawsom brynhawn tawel yn y tŷ i orffen y dydd.

Dydd Mawrth

Rydyn ni'n hoffi mynd am dro rownd y bloc yn ddyddiol er mwyn cael tamed bach o awyr iach ac i weld rhywbeth gwahanol i bedwar wal y tŷ. Ond heddiw mentron ni bach yn bellach. Cerddon ni at y cronfeydd dŵr er mwyn trio gweld hwyaid bach. Yn anffodus, doedd dim hwyaid bach yno, ond cafodd y merched ddim eu siomi ormod gan ein bod ni wedi cael hufen iâ ar y ffordd adre.



Dydd Mercher

Heddiw oedd fy nhrydydd shift yn yr hwb. Er fy mod yn gweithio o adref yn ddyddiol yn paratoi gwaith i'r disgyblion, mae hefyd ddisgwyl i athrawon weithio mewn hybiau i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus. Wedi cyrraedd yn gynnar yn y bore i gael y

cyfarwyddiadau am y dydd roedd angen aros i'r disgyblion gyrraedd, gwneud yn siŵr eu bod yn golchi'u dwylo ac yna mynd â nhw i'r neuadd i gael brecwast. Wedyn, golchi dwylo eto a mynd mas i chwarae. Wedyn, golchi dwylo eto a mynd yn ôl i'r dosbarth. Wedyn, golchi dwylo a chael cinio. Parodd y shifft 5 awr i gyd ac yna cyrhaeddodd athrawon newydd ar gyfer y shifft prynhawn a bant â fi adre.



Dydd Iau

Yr un oedd y drefn heddiw. Cyrhaeddais erbyn 7:45 ar gyfer cyfarfod ac yna aros i'r disgyblion gyrraedd. Roedd lot o olchi dwylo ac atgoffa plant am y rheol 2 fedr unwaith eto. Ar ôl i'r shifft orffen y peth gorau oedd y croeso pan gyrhaeddais adref!

Dydd Gwener

Dim lot i'w reportio heddiw! Ar ôl deuddydd yn yr hwb cawson fore diog a thawel cyn mynd am dro cyflym rownd y bloc ac yna dod nôl i chwarae yn yr ardd. Paratodd Rhydian y pwll padlo i'r merched tra bo fi'n cael cyfarfod staff dros y we gydag athrawon yr ysgol. Wedi gorffen roedd whant torheulo arna i, ond dyw hwnna ddim yn hawdd bob tro gyda phlant ifanc! Felly, es i i nôl dolis i Martha a numicons i Greta a'u rhoi yn y pwll padlo. Felly, tra oedd Martha yn brysur yn cwtsho'r dolis roeddwn i'n gweiddi rhif i Greta a hithau'n mynd lawr y sleid mewn i'r pwll padlo a darganfod y numicon a'i daflu i'r dde os oedd yn odrif neu chwith os oedd yn eilrif. Drwy wneud hyn drosodd a throsodd fe ges i bach o amser i fi fy hun i orwedd yn yr haul.



Dydd Sadwrn

Diwrnod yn llawn Cyw a Disney+ oedd hi heddiw (mae angen ca'l y balans yn does?) tra bo Mam a Dad yn cael trefn ar y tŷ. Mae'n syndod faint o lanast sydd o gwmpas y lle gyda merched tair a phymtheg mis (a Mam a Dad sy'n hoffi cael hoe yn lle clirio bob nawr ac yn y man!!). Ar ôl rhoi'r merched yn gwely roedd hi'n amser am gwis wythnosol y teulu dros Zoom – a thro Hen Dat-cu oedd hi heno i fod yn gwisfeistr! Yn anffodus, ni ddaeth yn olaf ... eto!



FFORDD NEWYDD RAGORACH

Mae dewis o ddwy ffordd gennym wrth i ni ddod allan o'r 'meudwyo mawr' presennol. Un yw ffordd y byd lle mae gwario trwm ar arfau lladd a'r llall yw ffordd newydd lesu lle mae pwyslais ar garu gelynion ac achub bywydau. Ac fel y Salmydd



gynt, erfyn ar i Dduw wneud i ni wybod pa ffordd i'w cherdded wnaeth Tudur Dylan Jones yn ei fyfyrddod gafaelgar yn yr Oedfa Fore ar Dudalenau Wepryd yr Ofalaeth ar Ddydd Sul, 10 Mai 2020.



Cyflwynwyd y gwasanaeth gan ein Gweinidog a chymerwyd rhan gan Alun Charles (yn darllen Salm 143) a Steffan Jones, Elin Wyn James, Heledd Mai Jones, Gwawr Waters (yn cyflwyno gweddïau *Wythnos Cymorth Cristnogol*).



Diolch i *Gwmni Sain* am ganiatâd i ddefnyddio'r emynau ac i Beti-Wyn am y gwaith paratoi a'r cynhyrchu a'r golygu graenus, yn cynnwys y golygfeydd cefndirol godidog a geiriau'r emynau ar waelod y sgrîn. Ardderchog yn wir.

EISTEDDFOD T



Llongyfarchiadau i'r canlynol am ragori yn Eisteddfod T yr Urdd!



Côr Bl.6 ac iau dros 20 o leisiau <i>Da hefyd oedd gweld Catrin Jones a Tomos yn cael eu cyfweld ar S4C</i>	Ysgol y Dderwen (2) Catrin Jones yn arwain Aelodau'r Côr - Tomos Morgans, Ben Morgan, Gwenan Jones, Anna Jones, Efa Evans, Miriam Williams, Beca Elfyn, Mali Marks, Mac Bodycombe-Pullin
Ymgom Bl.6 ac iau	Adran Cloeswyr Cowyn – Tomos Morgans (1)
Côr Bl.6 ac iau dan 20 o leisiau	Ysgol Gymraeg Teilo Sant (2) Aelod o'r Côr - Osian Hayes
Cyastadleuaeth Gwyddoniaeth	Miriam Williams (1)
Deuawd neu Ensemble Lleisiol Teulu unrhyw oedran	Greta Jones a'r teulu (2).
Teulu Talent – Her y tadau	Ian Marks (Tad Jona a Mali Marks)(1)
<i>Llawer o rieni a phlant wedi cystadlu yn y sialensau dyddiol hefyd</i>	

Thomas Jones
1756-1820



Fe'i ganed 'oddeutu diwedd Chwefror' ym 1756 ym Mhenucha, Caerwys, Sir y Fflint - man lle treuliodd ryw ddeugain mlynedd cyntaf ei oes. Derbyniodd addysg glasurol dda yng Nghaerwys a Threffynnon. Roedd pwysau arno, yn enwedig o du ei dad, i ymroi i ysgolheictod ac ymgymryd ag urddau eglwysig ond nid felly y bu. Ar ôl gadael ysgol yn ifanc bu'n gweithio ar fferm y teulu. Ymunodd â'r Methodistiaid ac mewn amser dechreuodd bregethu. Bu wedyn yn gofalu am achosion yn Yr Wyddgrug, Rhuthun a Dinbych. Yn ŵr amryddawn, roedd yn fardd, emynydd, hanesydd, diwinydd a chofiannydd. Priododd deirgwaith. Roedd yn ddi-blant. Bu farw ar 16 Mehefin 1820, ddeucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Fe'i claddwyd ym mynwent yr Eglwys Wen yn Nimbych.

Yn ei ddarlith '*Y Cawr o Benucha* (2019) mae'r Athro E Wyn James yn disgrifio Thomas Jones fel dyn hynod anghyffredin a nodedig ar sawl cyfrif a gafodd ei esgeuluso gan y genedl i raddau helaeth o leiaf hyd at ganol yr ugeinfed ganrif pan gyhoeddodd yr hanesydd Frank Price Jones fywgraffiad ohono (*Thomas Jones o Ddinbych 1756-1820*, Gwasg Gee 1956). Un sydd wedi'astudio cyfraniad Thomas Jones yn fwy diweddar, yn enwedig fel diwinydd, yw'r Parchedig Ddr Andras Iago, Gweinidog ifanc Eglwysi Presbyteriaidd Bro Dinbych.

Roedd Thomas Jones yn un o'r naw cyntaf i'w hordeinio'n weinidog gan y Methodistiaid Calfinaidd yn Sasiwn y Bala ym 1811 ym mlwyddyn dyngedfennol ymwahanu ei enwad yn derfynol oddi wrth Eglwys Loegr. Fe'i disgrifir fel un o arweinwyr mwyaf medrus a dysgedig ei enwad - '*Diwinydd dysgedigaf y Cyfundeb*', yn ôl yr hanesydd y Dr John Daves. Cymerodd ran helaeth yn nadleuon diwinyddol ei gyfnod, gan ddadlau yn erbyn Arminiaeth ac Uchel-Galfiniaeth.

Roedd yn gyfaill mawr i Thomas Charles o'r Bala a bu'r ddau'n cydweithio llawer. Drwy'r cyfeillgarwch hwn y daeth Thomas Jones

i wybod mwy am y byd crefyddol y tu allan i Gymru ac am fudiadau fel y Beibl Gymdeithas. Cydolygodd y ddau gylchgrawn crefyddol o'r enw Y Drysorfa Ysprydol am gyfnod (chwe rhifyn). Mae'n debyg i Thomas Jones ddylanwadu ar agwedd **Thomas Charles**



at dorri'n rhydd o'r Eglwys Sefydledig ac ordeinio gweinidogion. Dywed Huw Owen yn *Capeli Cymru* mae fe oedd prif arweinydd yr ymgyrch yn y gogledd i sefydlu'r Methodistiaid Calfinaidd yn enwad ar wahân. Dylanwadodd yn fawr hefyd ar Gymraeg llenyddol Thomas Charles ac ysgrifennodd gofiant i'w gyfaill pennaf.

Mae cyswllt arbennig rhwng Thomas Jones a'r Wasg yng Nghymru. Yn ŵr cysurus ei amgylchiadau bydol sefydlodd **wasg yn**

Rhuthun a daeth Thomas Gee Hynaf ato i weithio o Lundain.


Symudodd y wasg wedyn i Ddinbych ac fe'i gwerthwyd i Thomas Gee Hynaf.

Cymerodd ei fab yntau, Thomas Gee, drosodd yn ddiweddarach. Bu'r Wasg hon yn fawr ei dylanwad gan ddod yn adnabyddus am gyhoeddi *Y Faner* a llu o drysorau eraill.



Bu Thomas Jones yn gyfrifol am sawl cyfrol ddiwinyddol o bwys a chaiff ei adnabod fel un o ysgrifenyddyr Cymraeg gorau ei gyfnod. Ymysg ei gyhoeddiadau mae

Geiriadur Saesoneg a Chymraeg, Roedd hefyd yn fardd graenus a chynhyrchol.



Mae pedwar emyn o waith Thomas Jones yn *Caneuon Ffydd* (ac nid pump fel y nodir ym mynegai'r gyfrol). Un o'r emynau hyn yw *O arwain fy enaid i'r dyfroedd* a bydd y rhai ohonoch sy'n gyfarwydd â **CD Hoff Emynau Dafydd Iwan (2015)** wedi'i

glywed yn canu geiriau Thomas Jones ar *Yr Hen Ddarbi*. Ar y geiriau hyn hefyd y cyfansoddodd D Emlyn Evans (brawd y Parchedig

E Keri Evans, un o gyn-weinidogion y Priordy) un o'i donau enwocaf, *Eirinwg*. Mae'n debyg mai harddwch bro ei febyd yn Nyffryn Teifi ar brynhawn o haf fu'n ysbrydoliaeth iddo gyfansoddi'r dôn hon.

Emyn arall o waith Thomas Jones yw *Mi wn fod fy mhrynwr yn fyw*. Mae *Cydymaith i Caneuon Ffydd* yn nodi fel y mae'n seiliedig ar Lyfr Job 19: 25-26 – *Oherwydd gwn fod fy amddiffynnwr yn fyw, ac a saif o'm plaid yn y diwedd; ac wedi i'm croen ddifa fel hyn, eto o'm cnawd*




caf weld Duw.' Gwantan fu iechyd Thomas Jones ar hyd ei oes ond dywed Huw Powell Davies yn *Emynau'r Ffydd* iddo ddal ei afael yng ngobaith yr Efengyl ac yng ngobaith Job 'y câi ei *'weled ef eto yn fy nghnawd' yn ôl ei fersiwn ef ei hun o'r emyn cyn ei newid i 'allan o'm cnawd' gan olygyddion diweddarach'.*

A chyda'r emyn hwn y cysylltir y dôn *Trewen* amlaf, gwaith **D Emlyn Evans** unwaith eto. Mae enw'r dôn yn dod o fro enedigol y cyfansoddwr. A thra oedd yno'n eistedd ar


gamfa '*yng nghwmni côr y wig a golygfeydd natur*, yn ôl E Keri Evans ei gofiannydd, y daeth y dôn i fod. Ac wrth sôn am y briodas rhwng y geiriau a'r dôn, meddai *Cydymaith Caneuon Ffydd: Cymaint yw'r cyswllt rhyngddynt fel bod stryd wedi'i henwi'n Stryd Trewen yn Ninbych, tref Thomas Jones.*' A dyma ddyfynnu pennill cyntaf yr emyn adnabyddus hwn i gofio am ŵr go arbennig:

**Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
a'm prynodd â thaliad mor ddrud;
fe saif ar y ddaear, gwir yw,
yn niwedd holl oesoedd y byd;
er ised, er gwaeled fy ngwedd,
teyrnasu mae 'Mhrynwr a'm Brawd;
ac er fy malurio'n y bedd
ca'i weled ef allan o'n cnawd.**



DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYS

CWIS TEULU'R PRIORDY



Mae llawer o fynd y dyddiau hyn ar gynnal Cwis Teulu drwy Zoom a phawb yn cael hwyl fawr! Wel, dyma gwis i Deulu'r Priordy'r tro hwn. Efallai y bydd rhaid i chi chwilota ychydig neu ffonio ffrind er mwyn dod o hyd i bob ateb! Beth bynnag, pob lwc a mwynhewch. A chofiwch, dyw'r cwestiynau ddim o anghenraid yn dilyn trefn amseryddol!!



1

Ym mha flwyddyn y sefydlwyd yr eglwys yn y Priordy?

2

Beth yw enw mam eglwys y Priordy?

3

Beth yw enw'r gweinidog yn y Priordy a gyhoeddodd gasgliad o gerddi'n dwyn y teitl, *Cerddi byd a betws*?

4

Y Parchedig D Cadfan Jones oedd gweinidog cyntaf y Priordy. Ble ganed e?

5

Pwy yw 'Wil Tabwr' a fu'n Weinidog yn y Priordy?

6

***'Ew must be the Minister of Trade and Industry'* oedd sylw crwt ifanc pan welodd un o weinidogion y Priordy'n paentio wal allanol y tŷ un tro.
Pa weinidog ys gwn i?**

7

***Basic Themes in the Comparative Study of Religion* yw teitl un o nifer o gyfrolau gan un o weinidogion y Priordy. Pa un?**

8

Cyhoeddodd un o gyn weinidogion y Priordy gofiant i R Dewi Williams, gweinidog ac awdur storïau byrion. Beth oedd ei enw?

9

Treuliodd Y Parchedig W B Griffiths ddau gyfnod yn weinidog yn y Priordy. Ble bu'n weinidog rhwng y cyfnodau hyn?

10

Beth yw enw un o weinidogion y Priordy a fu am gyfnod yn Athro mewn Athroniaeth yng ngholeg y Brifysgol Bangor?

Mae croeso i chi anfon eich atebion at clem.charles@btinternet.co. Fel y dywed Ifan Jones Evans a Marci G ar eu rhaglenni ar Radio Cymru wrth osod posau - does dim gwobr, tipyn o hwyl yw'r cyfan!

SUL Y PENTECOST

Bu Rhian Bowen (Cana), Gwyneth Stephens (Bancyfelin) a Steffan Jones, Gareth Jones ac Elin Wyn James (Y Priordy) yn cynorthwyo'n Gweinidog i ddathlu pen-blwydd yr Eglwys yn yr Oedfa Ddigidol ar Sul y Pentecost.



Diolch am oedfa raenus a bendithiol ac am neges rymus Beti-Wyn yn erfyn am i oleuni, gwres a nerth Ysbryd Duw ein harwain ni heddiw a'n llanw ni â brwdfrydedd fel yn nyddiau'r Cristnogion cynnar gynt.

GOLHIRIO'R GYMANFA

Mae Swyddogion Pwyllgor Gŵyl Mawl Medi wedi penderfynu gohirio'r Gymanfa Ganu i'w chynnal yng Nghapel Penygraig ar Nos Sul 27 Medi 2020 tan y flwyddyn nesaf gan nad yw'n edrych yn debygol y bydd ein capeli'n ailagor am fisoedd.

Y dyddiad newydd yw

Nos Sul, 26 Medi 2021 am 5 o'r gloch – Capel Penygraig

Arweinydd - Meinir Richarda

Y bwriad yw defnyddio Rhaglenni 2019-20



ENGHREIFFTIAU O WAITH ZŴMS IAU'R PRIORDY AR ÔL GWRANDO AR HANES DUW'N CREU'R BYD





Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel a chadwch
mewn cyswllt. Beti-Wyn x

ENGREIFFTIAU O WAITH ZŴMS IAU'R PRIORDY AR ÔL GWRANDO AR HANES DUW'N CREU'R BYD





NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

TORRI MEWN A LLADRAD

Hoffem ddiolch i Alun Charles am ei lythyr ar ran Gweinidog, Diaconiaid ac aelodau'r Priordy am feddwl amdanom yn Salem yn wyneb y llanastr a'r dwyn yn ddiweddar. Mae gan bawb ohonom ddigon i feddwl amdano heb wynebu profiadau fel hyn. Yn anffodus, nid dim ond Salem sydd wedi dioddef yng Nghaernarfon a'r ardal yn yr wythnosau diwethaf.

Fel dywed Alun yn ei lythyr 'gobeithio daw haul ar fryn yn fuan'. Cychwynnir ar y daith hon ddiwedd y mis yma pan fydd cwmni proffesiynol o lanhawyr yn dechrau glanhau a diheintio'r adeilad.



ZOOM

Pan ddaw'n adeg inni gael trefn unwaith eto, rhai o'r pethau y byddwn fwyaf diolchgar amdanynt fydd Zoom, negeseuon Ebost, y ffôn a llythyrau. Ar **Zoom** rydym wedi llwyddo i gynnal yr Ysgol Sul a Phwyllgorau. Dros yr **Ebost** byddwn yn anfon oedfa'r Sul bob wythnos ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall i'r aelodau Mae'r **ffôn** yn gyfrwng inni gyrraedd pawb Ac rydym yn anfon mwy o **lythyrau** nag arfer! Pwrpas hyn oll wrth gwrs yw cadw cysylltiad.



COFION CYNHESAF

A hithau'n adeg sy'n dal i fod yn un bryderus i bawb, cadwch yn ddiogel a boed inni fod yn llawn gofal.



PAPUR PRIORDY’N HOLI MARI JENKINS AM EI GWEITHGARWCH ARBENNIG

PP: Yn clywed Mari, eich bod yn ddyfeisgar iawn yn helpu GIG Cymru yn ystod y meudwyo mawr. Allwch chi esbonio i ni beth yn union rydych chi’n ei wneud?



MJ: Roedd hi’n anodd i mi gael unrhyw fath o drefn ar bethau pan ddechreuais hunanynysu. Teimlais fod angen rhywbeth ychwanegol arnaf i’w wneud i strwythuro’r dydd yn well. Cysylltais â grŵp gwnïo oedd yn cynhyrchu nwyddau ar gyfer Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Roeddent yn chwilio am bobl i wnïo bagiau scrubs, bandiau gwallt, capiau, mygydau a.y.b ar gyfer y staff. Rwyf wedi gwneud dros ugain o fagiau, bandiau gwallt ac yn gweithio ar hetiau ar hyn o bryd, Mae’r grŵp yn darparu’r offer i ysbytai a chartrefi gofal yn y sir.



PP: Beth ysgogodd chi i wneud hyn Mari?

Roedd fy chwaer Siân sy’n byw yn ardal Rhondda Cynon Taf eisoes wedi cynhyrchu bagiau a mygydau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a hi wnaeth fy ysbrydoli i wnïo. Hefyd, cefais lawdriniaeth fawr amser hyn y llynedd ac roeddwn am roi rhywbeth yn ôl i’r Gwasanaeth Iechyd.

PP: Pa ddefnydd ydych chi’n ei ddefnyddio?


MJ: Mae’r grŵp wedi awgrymu ein bod yn defnyddio defnydd cotwm oherwydd bydd rhaid i’r bagiau a’r hetiau gael eu golchi ar dymheredd twym. Penderfynais wnïo logo ar bob bag i’w haddurno. Daw hyn â gwên ar wyneb pobl wedi diwrnod caled o waith. Diolch i Archfarchnad Morrisons am roi gorchuddion cwilt gwely a chynfasau at yr achos. Fel rydych yn ei weld, defnyddiais rhai o’r rhain i wneud y bagiau. Mae elusen Chris Evans, y darlledwr enwog, a’i fab Noah hefyd wedi cyfrannu defnydd ar gyfer gwneud gwisgoed i’r staff.

PP: Ydy e'n waith sy'n cymryd amser?

MJ: Llafur cariad yw hwn a rhywbeth sy'n rhoi pleser mawr i mi.

PP: Beth sy'n digwydd ar ôl i chi orffen y gwaith?

MJ: Rwyf mewn cysylltiad â dynes sy'n byw yn Nafen Llanelli, hi yw cysylltydd yr ardal hon ac rwy'n mynd â'r cynnyrch gorffenedig ati hi ynghyd â chasglu rhagor o ddefnydd.



PP: Ys gwn i ble dechreuodd eich diddordeb yn y math hwn o waith?

MJ: Roedd fy mam, fel mae nifer ohonoch yn ei wybod, wedi'i hyfforddi'n athrawes Gwyddor Tŷ. Roedd hi'n gwnio'n dillad ni i gyd. Roedd fy Mam-gu yn wniwr proffesiynol a'm tad-cu'n weinidog. Byddai Mam-gu'n

gweithio siwtiau tad-cu i'w gwisgo ar y Sul. Roedd gan y ddwy ohonynt ddawn aruthrol ac wedi derbyn hyfforddiant yn y grefft. Y nhw sydd wedi fy ysbrydoli. Dysgais wnïo hefyd gyda Mrs Iris Owen, chwaer Rhian, pan oeddwn yn yr ysgol Ramadeg.

PP: I ffyddloniaid y Priordy, wrth gwrs, dyw hi ddim syndod o gwbl bod gennych y sgiliau gwnïo hyn. Efallai y gallech esbonio i rai nad ydynt eisoes yn gwybod fel y mae rhywbeth ym mhulpud y Priordy yn ein hatgoffa o'ch diweddar fam yn barhaus.



MJ: Os edrychwch chi o flaen y pulpud mae yna frodwaith o groes. Fy mam a wnaeth hwn gyda chymorth fy nhad, mathemategwr o fri, a Miss Pam Rooke oedd yn ddarlithydd Celf a Brodwaith yng Ngholeg y Drindod. Yn rhyfedd iawn, wrth dacluso'r tŷ y diwrnod o'r blaen deuthum o hyd i'r patrwm. Daeth hwn yn ôl ag atgofion melyn i mi.

Llawer o ddiolch i chi am ateb y cwestiynau Mari ac am eich holl waith. Mae coffa da iawn gennym hefyd am eich diweddar rieni, John a Nansi Jenkins, a'u gweithgarwch yn y Priordy. Ac os oes aelodau eraill yn y Priordy'n gwneud rhywbeth tebyg i Mari'r dyddiau hyn cofiwch roi gwybod i ni.

YR YSGOL SUL AR ZOOM!



Gweddi gyda Beti-Wyn



DYDDIADUR WYTHNOS GARETH GRAVELL



Dydd Sul

Bore braf ac oedfa arall dan arweiniad Beti-Wyn ac Elin wedi gorffen a diolch yn fawr iddynt am y geiriau o gysur yn ystod y dyddiau anodd hyn. Mae'n siŵr fod nifer yn ynysu dan wahanol amgylchiadau. Y sefyllfa gen i yw bod Rhian y wraig wedi bod gyda'i mam yng Nghefneithin ers marwolaeth ei thad fis Chwefror ac wedi bod yn ynysu gyda hi ers dyfodiad y cloi yn mis Mawrth. Felly dw i'n cael fy hun yn bennaeth y cartre ac yn gyfrifol am oroesi'n llwyddiannus wrth fy hunan! Diwrnod tawel fydd hi heddiw'n darllen y papurau ac yn gwneud sglods a ffa pob i ginio!

Dydd Llun.

Un peth da sy wedi dod o'r cloi mawr yma yw fy mod wedi dod tipyn yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur. Rwy nawr yn gallu trefnu *click and collect* o'r archfarchnad a hyd yn oed ddechrau prynu ar lein. Mae'n rhyw saith wythnos nawr ers i mi weld Jac bach yr ŵyr ac yn sicr dyma'r agwedd anoddaf ar y sefyllfa. Anfonodd Teleri, y ferch, neges *FaceTime* ata i'n dangos yr un bychan yn cripad drwy'r tŷ ac yn gwneud synnau newydd na chlywais i mohonyn nhw o'r blaen. Bobl bach, mae 'di newid. Amser rhyfedd yn wir.

Dydd Mawrth.

O leiaf mae'r tywydd yn braf ac felly tacluso'r ardd amdani heddiw. Mae angen torri'r lawnt a phaentio'r ffens yn y cefn. Mae'n waith weddol drwm yn yr haul poeth ond yn braf i fod allan yn yr awyr agored. Yn wir, rwy'n hapus iawn gyda'm gwaith llaw a'r funud honno mae'r ffôn yn canu. Rhian sydd yno yn fy atgoffa fod rhaid torri'r lawnt a phaentio'r ffens! Rwy'n deall sut mae Basil Fawltyn teimlo nawr pan fydd Sybil yn ei boeni ac yntau wrthi'n ddiwyd!



Dydd Mercher.

Mae gen i gyfarfod rhith gyda Llywodraethwyr Ysgol Llangynnwr am 2 o'r gloch ac mae hynny'n golygu gosod y cyfrifiadur ar gyfer *Skype* er mwyn ymuno ag eraill i sgwrsio - rhywbeth dw i heb wneud o'r blaen.

Mi ddylwn fod wedi cysylltu â Beti-Wyn am gyfarwyddiadau!

Wedi straffaglu gyda gwahanol fotymau a hithau'n agosáu at 2 o'r gloch dyma'r sgrin yn dechrau dod i fywyd ac yn wir i chi, dyma'r wynebau a'r lleisiau'n fy nghroesawu i'r cyfarfod arbennig! Llwyddiant. Mae 'na deimlad o foddhad mawr pan fydd pethau'n gweithio, on'd oes?

Dydd Iau.

Bore braf arall ac rwy'n cael y teimlad fod angen ystwytho arnaf. Felly allan â fi am dro hyd at barc Llangynnwr. Mae nifer yn cerdded o amgylch y llwybr sy'n cwmpasu'r parc ac wedi sgwrs â rhai o'r trigolion lleol nôl â fi i'r tŷ i ffonio Rhian a dweud wrthi fod yr ardd yn edrych fel rhywbeth allan o un o raglenni Alan Titchmarsh a'r tŷ'n union fel un yn yr *Ideal Home Exhibition*. Dyna ni - o leiaf mae'n hapus! Mae'r newyddion ar y teledu a Dominic Cummings yn tynnu'r sylw i gyd. Go



brin fod angen ymhelaethu! Newyddion cymysglyd sydd gan yr arbenigwyr. Er bod nifer y rhai sy wedi'u heintio wedi gostwng, mae rhai arbenigwyr yn rhybuddio am don arall o'r feirws. Mae hi'n amser anodd dros ben. Heno mae pawb ar stâd Brithdir allan yn clapio a churo sosbenni wrth dalu teyrnged i weithwyr dewr y

GIG. A diolch amdanynt yn wir!

Dydd Gwener.


Pe bawn i'n dewis cerdd i ddisgrifio fy nheimpladau'r dyddiau hyn fe ddewiswn "*Araf y tipiau'r cloc yr oriau meithion.....*" gan Iorwerth Peate. Mae amser fel petai'n aros yn llonydd gan fod pob diwrnod bron yr un fath â'r un cynt. Er hyn, mae yna ryw batrwm yn sefydlu ei hun. Er enghraifft, mynd i nôl papur, gwrando ar y newyddion, gwneud cinio, glochi llestri ac yn fy achos i, smwddio! Yn wir i chi dwi wedi dod yn ŵr tŷ ym mhob ystyr y gair. Mae'n bwysig cael rhyw fath o batrwm er mor anodd ydyw neu fyddai bywyd yn anodd iawn.

Dydd Sadwrn.

Mi glywais ar y radio fod nifer yn poeni fod y siopau torri'r gwallt yn dal ar gau a bod hyn yn peri gofid i'r rheini sydd yn cymryd dileit yn eu locsys trwchus. Wel dyw hwnna ddim yn broblem fawr i mi gan fod y gwallt ar fy mhen wedi dechrau teneuo ers blynnyddoedd. Fodd bynnag, pan deimlaf yr angen i glipio ambell flewyn, fel heddiw, bydda i'n tynnu cliper trydanol dros fy mhen yn gyflym a dyna fi'n iawn am ddeufis arall! Wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen mae fy meddyliau'n troi



at Foelgastell a Jac bach. Sut mae e heno tybed? Chwarae teg i Teleri, mae hi'n cadw cyswllt yn ddyddiol ac ar *FaceTime* heno dyna fe'n edrych arnaf gan wenu a chwifio llaw fach ym mreichiau'i dad Nic - ac rwy'n siŵr i mi ei glywed yn ymdrechu'n galed i ddweud "*Helo Dad-cu*". O mi fydd hi'n braf pan ddaw hyn i gyd i ben. Ie wir, dyddiau rhyfedd iawn.



Cyfrol newydd Geraint Roberts Cwmffrwd



Cyhoeddiadau Barddas £7,95
Ar gael drwy
geraintroberts@btinternet.com
rhif ffôn symudol
07814701078

Siop y Pentan - siopypentan.co.uk

Y Cyngor Llyfrau -
www.gwales.com

Mae hi'n gyfrol hyfryd, ac yn llawn cerddi gafaelgar, sicr eu crefft. Maen nhw'n gerddi fydd yn cyffwrdd y galon ac yn apelio at bawb.

Tudur Dylan Jones

**Yn awyddus i glywed myfyrdod?
Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**



BYW I BWRPAS

MAE gwyddonwyr yn yr Unol Daleithiau ac yn Lloegr wedi cyhoeddi fod pobl sy'n mynd yn rheolaidd i le o addoliad yn byw yn hirach 'ar gyfartaledd' na'r rhai sydd byth yn tywyllu'r lle.



Efallai y gall gwyddonwyr a mathemategwyr yn y Priordy esbonio beth yw ystyr 'ar gyfartaledd'. Dylid cydnabod fod yr haint coronafeirws wedi cawlio pethau ar hyn o bryd. Mae'r gwyddonwyr yn naturiol yn chwilio am resymau gwyddonol i esbonio pam mae pobl yn byw'n hirach drwy fynd i addoldy. Maent eisoes wedi cynnig rhesymau pam mae'r rhai di-gred yn marw'n rhy gynnar – smocio mwy a goryfed, bwyta'n afiach ac ati.

Ond nid ydynt yn cytuno eto pam mae pobl sy'n addoli'n gyson yn byw yn hirach. Tybed a oes yma resymau seicolegol? Tybed a yw ffydd yn rhoi tawelwch meddwl? Neu a ydy codi i ganu emynau'n peri daioni i'r corff? Clywsom am gorau sydd wedi dod at ei gilydd gan rai sy'n dioddef o'r cancr ac, yn ôl y sôn, yn cael bendith o'r canu. Neu tybed ai cymdeithas a ffydd a llawenydd yw'r rheswm dros fyw'n hen? Mae'n debyg fod perthyn a chymdeithasu'n rhan o'r ateb gan fod dyn yn lleihau unrhyw '*stress*' yn ogysal â sylweddoli fod cariad at eraill, ac nid at yr hunan, yn melysu bywyd.



Rai blynyddoedd yn ôl cefais fy hun mewn synagog yn India lle nad oes modd cynnal oedfa heb fod o leiaf ddeg o ddynion priod yn y gynulleidfa'n bresennol. Cofiais eiriau iesu '*..lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw li, yr wyf yno yn eu canol.*'

Nid rhif nac o ba ryw sy'n bwysig ond yr awydd i gwrdd ac addoli.

Efallai y daw ateb gwahanol gan yr ymchwilwyr gwyddonol i gwestiwn addoli a hirhoedledd ac eto i'r Cristion nid byw yn hen yw'r pwynt ond byw i bwrpas.



*CWIS
PIP*



STORI'R PLANT



Carys Morgans. un o rieni'r Ofalaeth yn sôn am...

Y PLANT AR WAITH!

MAE'R misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod anghysurus ac estron i bawb. Mae bywydau plant a phobl ifainc yn enwedig wedi cael eu troi ben ei waered – dim ysgol, dim clybiau wedi ysgol a dim cymdeithasu yn y ffordd draddodiadol gyda ffrindiau. Fodd bynnag, un elfen o fywyd sydd wedi aros yn gyson, er mewn ffordd wahanol, ydy'r cyswllt â Chapel y Priordy, Cana a Bancyfelin.



Diolch i waith diflino'n Gweinidog mae'r plant wedi cael nifer o gyfleoedd i gyfrannu at gymdeithas y capel. Yn gynnar yn 'lockdown' buodd nifer o blant yr Eglwys yn gwneud cardiau er mwyn cyfarch rhai o'r aelodau hŷn ar ran yr Ysgol Sul a chafodd yr Ofalaeth tipyn o hwyl yn creu ffilm cyfarch, sydd wedi'i gwyllo drosodd a throsodd yn ein tŷ ni!

Dros gyfnod y Pasg, cafodd plant yr Ysgol Sul hwyl fawr yng nghwmni Islwyn yr Asyn a Beti-Wyn, gyda stori'r Pasg yn cael ei hadrodd mewn ffordd unigryw dros Facebook a phecyn gweithgareddau'n rhoi 5 munud o heddwch i'r rhieni diolchgar!

Ar 25 Ebrill, buodd sawl un o blant Ysgolion Sul yr Ofalaeth yn cymryd rhan yn Oedfa'r Teulu, a gafodd ei darlledu dros dudalen *Facebook* y Capel a *YouTube* ar y thema amserol 'Enfys.' Diolch i Osian, Ethan, Rhun (Cana), Tomos Huw, Enlli (Bancyfelin), Beca a Miriam am eu cyfraniadau ardderchog. Roedd yn wasanaeth hyfryd a gafodd ei wyllo gan oleuaf fil o wylwyr yn ôl *YouTube*! Mae mwy am y gwasanaeth hwn mewn rhan arall o'r Papur.



I goroni'r cyfan, gwelwyd cychwyn Ysgol Sul ar gyfer yr Ofalaeth dros Zoom. Sesiynau bywiog, llawn hwyl dan arweiniad Beti Wyn ydynt gyda gweithgareddau i'w gwneud wedi'r mewnbnw. Cafwyd eisoes stori creu'r byd a stori am oleuni, gyda'r plant yn bwrw ati i greu gweddïau a lanternau papur yn dilyn y sesiynau. Anhygoel

oedd gweld tua 55 o blant yn ymuno – dyma ddefnyddio technoleg ar ei orau.

EDRYCHWN ymlaen yn fawr iawn at weld beth ddaw nesa!

Gwasanaeth yr Ofalaeth Dydd Sul 24 Mai 2020



CYN dechrau sôn am y gwasanaeth yma rydw i am ddanfôn cofion at bawb gan obeithio eich bod chi i gyd yn cadw'n iach. Rydw i hefyd eisiau diolch i Beti-Wyn ac Elin yn bennaf ond hefyd i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y gwasanaethau ar y we hyd yn hyn. Mae'r cyfan wedi bod o fudd mawr i ni, gallaf eich sicrhau. Mae'r bobl sy'n f'adnabod yn dda'n gwybod nad ydw i'n ffan mawr o'r byd digidol ond bois bach dw i, fel chi, wedi bod mor ddiolchgar amdano yn ystod y misoedd diwethaf.



Felly at y gwasanaeth dan sylw. Yn gyntaf, diolch o galon i Jac, Gwion, Ffion, Siwan, Lowri a Gwenllïan am gymryd at y rhannau arweiniol drwy ddarllen a gweddïo – nid yn unig am fodloni i wneud hynny ond am ei wneud gydag urddas. Mae llawer o bobl yn barod iawn i farnu ieuenctid ein cymdeithas, felly rydw i'n credu bod angen i ni ganu clodydd pobl ifanc a phlant ein gofalaeth gan eu bod nhw bob amser yn barod i wneud eu rhan dros eu capeli a hynny ar y safon uchaf bosib. Chi'n werth y byd. Diolch.

Ymlaen wedyn at y myfyrdod gan Elinor Wyn, person dw i'n bersonol yn ei hedmygu'n fawr iawn. Diolch o galon iddi am ein tywys ni drwy'r gadwyn o deuluoedd yr ydym yn perthyn iddi ac am wneud hynny yn ei ffordd hwylus ac unigryw ei hun.

Rwy'n siŵr bod y rhai ohonoch a fu'n gwrando wedi cael ambell i



'chuckle' fach wrth uniaethu ag Elinor Wyn pan oedd yn sôn am ei phrofiad o weld ei hunan yn debyg i'w Mam a'i Mam-gu, ei hamser yn yr Ysgol Sul ac wedyn yn y capel yn edrych o'i chwmpas gyda chywreirwydd ar y teulu yr oedd wedi dewis bod yn aelod ohono - a sylwi bod aelodau eraill yn gwneud yn union yr un peth! Yna'r profiad o ddod yn raddol i adnabod pob aelod o deulu'r capel.

Aeth ymlaen i sôn am ddylanwad teulu - y teulu fu'n gyfrifol am ein magu a'n ffurfio ac yna deulu'r eglwys neu'r 'Ultimate Teulu' yr

ydym yn perthyn iddo drwy ffydd a thrwy ddewis. Yn y teulu hwn mae Cristnogion yn frodyr a chwiorydd i'w gilydd dan ofal Duw'r Tad a Iesu'r Mab yn gosod y patrwm ar gyfer y ffordd y dylem ymddwyn. Mae'n golygu byw'n gyfrifol, caru'n gilydd a thrwy hynny ddod i garu'r byd yn well. Hyfryd hefyd oedd clywed fod pob unigolyn yn nheulu'r eglwys yn gyfartal ac yn cyfrif a bod rhan gan bob un ohonom i'w chware ynddi.



Cafwyd ychydig o hanes personol diddorol Elinor Wyn o berthyn i deulu'r Priordy ers pan oedd yn dair oed wrth iddi sôn am ei helyntion yn yr Ysgol Sul a'i pherfformiadau fel Mair yn y Gwasanaeth Nadolig. Cymharodd hyn â'r ffordd y mae'n teimlo nawr wrth wyllo plant a phobl ifanc ardderchog heddiw'n perfformio – fel y gwelwyd yn ystod y gwasanaeth hwn. Mae'n gallu edrych yn ôl fel oedolyn erbyn hyn a gweld gwerth ein perfformiadau ni pan oedden ni'n blant. Awgrymwyd y byddai'n dda o beth gweld yr oedolion yn perfformio Stori'r Geni rywbryd! Ewch amdani bois – bydden ni'n dwlu gweld Elinor Wyn fel Mair yn canu suo-gân i'r Baban Iesu!!!

Soniodd am ein cyfrifoldebau ni oedolion yn y capel ac fel y dylen ni fod yn esiampl dda i'r to iau - gwenu arnynt wrth iddynt wneud eu rhan, dangos cariad atynt a hefyd gynnig pob cefnogaeth iddynt. Diolchodd yn bersonol i oedolion y Priordy am fod yn deulu estynedig i'w phlant hi ac am eu cefnogaeth, eu gofal a'u cariad atynt ar bob achlysur.

Gorffennodd trwy ddweud bod teulu'n beth mawr, sbesial, hynod gyffredin - ond nad oes gennyn ni deulu heb ein gilydd. Wrth edrych arnom ni fel teulu'r ffydd rydyn ni'n lwcus o fod ar y cilcyn bach hwn o dir, yn y Priordy, ar Heol y Prior, Sir Gâr, Cymru, Prydain, Ewrop (ar hyn o bryd) Hemisffer y Gogledd, y Byd, y Bydysawd – a hynny yng Nghariad Crist. Mae'r un mor wir am Gana a Bancyfelin hefyd!



DIOLCH o galon unwaith eto i chi i gyd. Er ein diolch i chi am wneud hyn dros y we, edrychwn ymlaen at weld pawb 'yn y cnawd' yn fuan iawn gobeithio - yn un teulu mawr yn adeiladau capeli'r Ofalaeth.

Gwasanaeth Cymun
Bore Sul 3 Mai 2020



Oddi ar i ni gael ein caethiwo i'n cartrefi rwyf wedi symud i fyw dros dro at Iris, fy chwaer, a bob bore Sul mae'r lolfa yma wedi troi'n addoldy. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn yr arlwy o wasanaethau a gawn ar y teledu, y radio a'r cyfryngau cymdeithasol.

Gan ei bod yn Sul cyntaf y mis, roedd y gwasanaeth ar fore Sul 3 Mai yn Oedfa Gymun. Crëwyd naws ddefosiynol ar unwaith gan ddatganiad Côr Llanddarog o emyn Alice Evans ar alaw Eric Jones yn gofyn i Dduw fendithio'r oedfa:

O nefol Dad, tyrd atom ni,
Rho yn ein calon D'eiriau Di,
A boed i'th Ysbryd lanw 'mron,
Bendithia Di yr oedfa hon.

Wedi iddi ein croesawu i'r gwasanaeth, cyflwynodd Beti-Wyn y rhannau arweiniol. Mae'n braf fod ganddi giwrdd ifanc, sef Elin Wyn, i'w chynorthwyo yn yr oedfaon. Darllenodd Elin Wyn y drydedd Salm ar hugain a rhan o Efengyl Ioan lle mae Iesu Grist yn disgrifio'i hun fel y Bugail Da. O'r Beibl.net y daeth y darlleniadau ond mae'n rhaid i mi gyfaddef fod gen i hiraeth am farddoniaeth yr hen gyfieithiad. Wedi'r weddi ddwys ac amserol cafwyd datganiad teimladwy gan Côr Llanddarog o drefniant Eric Jones o Weddi'r Arglwydd.

Yr hyn a ysgogodd Beti-Wyn i ddewis y Bugail Da fel testun y myfyrdod oedd gweld haid o ddefaid yn difyrru'u hunain ar gylchdro mewn parc yn Raglan. Rydym wedi arfer meddwl nad oes gan ddefaid lawer o grebwyll, ond mae'n amlwg eu bod yn hoffi heidio at ei gilydd ac yn cyd-ymdrechu i fwynhau'u hunain. Mae'r cyfnod dyrys yma wedi ein gorfodi i ddod o hyd i ddulliau gwahanol o fyw ein bywydau. Cymhellir ni gan Dduw i fentro ac i gamu dros drothwy'r drysau sy'n agor o'n blaenau. Cawn ein harwain gan Iesu Grist, fel bugail yn tywys ei braidd gerllaw y dyfroedd tawel i'r porfeydd gwelltog, lle cawn gynhaliaeth ymhob amgylchiad. Bydd yn ein helpu i ddod o hyd

i ffyrdd newydd pan fydd cypyrddau ein bywyd yn wag ac yn eu llenwi â'i Ysbryd, i'n nerthu a'n calonogi pa beth bynnag ddaw. Wrth ddod at fwrdd y Cymun anogodd Beti-Wyn ni i gofio am yr Oen di-nam a fu farw er mwyn i ni gael byw.

Geiriau Williams Pantycelyn *O nefol addfwyn Oen* ar dôn Sioned Williams a'n harweiniodd at y sacrament. Gwn fod gweinidogion dros y blynyddoedd wedi mynd â chymundeb i gartrefi cleifion a'r rhai sy'n methu mynychu oedfaon am resymau eraill, ond dyma'r tro cyntaf i ni'n dwy gael Cymun ar yr aelwyd. Yn dilyn awgrym Beti-Wyn, roeddem wedi paratoi gwydriadid o sudd pomgranadau a bisgïen fach sawrus. Wrth fwrdd y Cymun crëwyd naws ddefosiynol a theimladwy a'n tynnodd at ein gilydd fel un teulu ynghyd. Teimlem fod gennym destun llawenydd a diolchgarwch am fod gennym Waredwr sydd yn ein derbyn fel yr ydym, yn ein caru, yn maddau ein holl wendidau ac yn ein rhyddhau o faglau pechod.



Adleisiwyd hynny yn emyn olaf y gwasanaeth:

Y maglau wedi'u torri
A'm traed yn gwbl rydd
Os gwelir fi fel hynny
Tragwyddol foli a fydd.

Diolch eto am oedfa fendithiol ac am y profiad newydd o gymuno ar yr aelwyd.



UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG BUGEILIO CEFN GWLAD



Amaeth yw asgwrn cefn ein cymunedau gwledig – yn cynnal ein capeli, yr iaith Gymraeg a'n diwylliant. Ond mae ffermio yn gallu bod yn waith unig ac fe all problemau ariannol a phryderon eraill o sawl math effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol.

Oes gennych chi broblem neu bryder?

Codwch Ffôn Llinell Gymorth yr Elusen RABI am gymorth arbenigol

0808 281 9490

GOBAITH

Dyna oedd neges Oedfa Deuluol yr Ofalaeth gafodd ei darlledu fore Sul 26 Ebrill dan arweiniad y Parch Beti-Wyn James. Neges gwbl berthnasol i'n dyddiau dyrys ni pan mae gofid y Covid-19 presennol yn ein hamgylchynu. Er i ddrysau'r capel fod ar gau, trwy weledigaeth y Gweinidog a chymorth technoleg, cawsom wasanaeth bendithiol, yn cynnwys cyflwyniadau, emynau a darlleniadau pwrpasol a'r gwaith ffilmio a'r gerddoriaeth gefndirol yn ychwanegu at naws yr oedfa.



Braf iawn oedd cael plant y tair eglwys - Y Priordy, Cana a Bancyfelin - yn cymryd at y rhannau arweiniol amserol, yn dwyn i gof beth yw'r enfys a phryd a pham mae'n ymddangos. A'r darlleniad pwrpasol o Lyfr Genesis yn adrodd stori Noa a'r dilyw ac arwyddocâd ymddangosiad enfys yn yr wybren - sef addewid Duw na fydd byth yn ein hanghofio. Roedd clywed lleisiau Côr Plant Ysgol y Dderwen yn canu "*Dwy law yn erfyn*" yn ein cyffwrdd i'r byw a neges y weddi dros y byd yn cyfleu ein teimladau a'n dyheadau ni i gyd.



Yn ei ffordd ddihafal ei hun, ymateb Beti-Wyn i gyfraniad y plant oedd uniaethu â'u profiadau trwy gyfeirio at liwiau'r enfys, a phob lliw yn ei dro yn cynrychioli gwahanol elfennau o greadigaeth Duw a'i gariad ac o fawredd Crist, ein Brenin. A bwa'r enfys yn symbol o obaith ac yn neges bendant i'r plant a ieuenctid yr ofalaeth. Ond nid yn unig iddyn nhw ond i bob un ohonom.



Ar ddechrau'r oedfa cyfeiriwyd at luniau'r enfys sydd i'w gweld yn ffenestri'n cartrefi - cannoedd ohonynt - yn amlygu ein gwerthfawrogiad o'n Gwasanaeth Iechyd. Arwyddocâd Beiblaidd yr enfys oedd gan y Gweinidog dan sylw yn ei neges i'r oedolion gan gyfeirio at:

- *fawredd Duw a'i sofraniaeth - a'r enfys yn amlygu hyn ac yn ein hatgoffa o greadigaeth Duw, yr Hollalluog. "Mor fawr wyt Ti"*
- *perffeithrwydd Duw - a'r enfys yn warant o'i gymeriad perffaith, ei burdeb a'i hawddgarwch. "Doeth a grasol yw ein Duw ni."*
- *addewidion Duw - a'r enfys yn brawf na fydd Duw yn torri ei air. "Bydd ei eiriau Ef yn sefyll."*

"Chwiliwch am yr enfys." Dyma'r sialens i ni.

Diolch Beti-Wyn am neges yn llawn gobaith ac am bendantrwydd yr Efengyl ynghanol ein gofidiau.



Diolch i Lis am yr adroddiad hyfryd hwn. Ein dymuniadau da i Wil a hithau sy'n hunanyynysu yng Nghaernarfon ac edrychwn ymlaen at eu croesawu i'r Priordy unwaith eto ar ôl i gyfnod y meudwyo ddod i ben!

RHOWN WYBOD MEWN DA BRYD PAN FYDD Y CANLYNOL YN AILDDECHRAU

- **Agor y Gair**
- **Drws Agored**
- **Cwrdd Chwarter**



**Mae'r
SUL SBESIAL
i'w gynnal ar
Ddydd Sul 12 Gorffennaf 2020
wedi'i ohirio**

**Y TYST
50c y rhifyn!
Cysyllter â Sulwyn Thomas**



BORE COFFI McMILLAN

Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd

Dydd Gwener 25 Medi 2020

Newyddion Da – fe fydd digwyddiad ond bydd hwnnw'n wahanol i'r arfer!!

Nodwch y dyddiad felly, os gwelwch yn dda, a chadwch olwg am y trefniadau!



YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



☎ CYNLLUN FFONIO FFRIND MERCHED Y WAWR ☎



Mae'r Mudiad wedi lansio cynllun i annog pobl i ffonio ffrind. Felly, os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n unig, wrth ei hunan neu sydd eisiau sgwrs yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn, cofiwch godi'r ffôn - mae'n golygu llawer i'r bobl hyn!

Mae croeso i unrhyw un gysylltu hefyd â'r rhif ffôn yma

01970 611 661

os ydych eisiau sgwrs!


AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com

PANED GYDA'R PRIORDY'S DROS ZOOM!

Bu'r sesiwn yn gyfle gwych i ni gymdeithasu â'n gilydd a chyfnewid newyddion. Diolch in Gweinidog am drefnu. Diwedddwyd drwy gydadrodd gweddi bwrpasol a osodwyd ar y sgrin ar ein cyfer.



PLAS Y DDERWEN

Daeth cais diddordol oddi wrth Gartref Plas y Dderwen yn gofyn i Beti-Wyn a fyddai'n gallu anfon gwasanaethau digidol dros ebost ar gyfer y trigolion gan eu bod yn colli'i hymweliadau'n fawr iawn. Ymatebodd Beti-Wyn i'r cais gan anfon cyflenwad ar eu cyfer. Mae'n debyg hefyd i'r pecyn gyrraedd Castell Tywi – ar gais y cartref hwnnw.



CYDYMDEIMLAD

Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at Thelma Evans ar golli'i brawd yng nghyfraith, Douglas Davies, yng Nghaerdydd ar 2 Mai 2020. Cofiw'n am ei ferched, Gillian a Wendy, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys ag Ann Griffiths ac Ivor Evans ar golli'u brawd Gwynfor Evans yn Halsham, Dwyrain Swydd Efrog, ar 25 Mai 2020. Bydd rhai ohonoch yn cofio Gwynfor yn dod atom i'r Priordy pan fyddai'n ymweld â Chaerfyrddin. Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu colled.

Yn Rhifyn Ebrill roeddem yn cydymdeimlo ag Eleri James ar golli'i chefnider, Elgan Jones o Borth Tywyn, cigydd adnabyddus a thad John Owen Jones, y canwr a'r actor a pherfformiwr sioeau cerdd o fri. Mae'n ofidus gorfod cydymdeimlo â hi eto yn y rhifyn hwn ar golli gweddw Elgan, sef Maureen Jones, Porth Tywyd ar 14 Mai 2020. Ein cofion didwyll at y teulu cyfan yn y golled ychwanegol hon.

Rydym yn cydymdeimlo hefyd â Llinos ac Elfyn Jones a'r plant Noa a Nel ar golli ewythr Llinos, sef Cen Williams, Y Barri ond gynt o Walchmai, Ynys Môn ar 24 Mai 2020. Cen oedd cartwnydd y cylchgrawn *Go/wg* a'i waith yn cynnwys dylunio cloriau eiconig ar gyfer y gyfres o albymau Cwm Rhyd y Rhosyn a recordiwyd gan Dafydd Iwan ac Edward. Roedd hefyd yn un o sylfaenwyr Clwb Pêl-droed Cymry Caerdydd ym 1969. Cofiw'n am ei gymar Carol a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

Rydyn ni'n meddwl hefyd am Nigel Jenkins a gollodd ei frawd, Colin, yn Llundain ar 28 Mai 2020. Estynnwn ein cofion cynhesaf at ei briod, Deanne, a'u mab Gareth a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn. Da gweld Bronwen Wilkins a Gladwen Meredith gartref wedi cyfnod yn yr ysbyty. Meddyliwn hefyd am Walford Davies, tad ein Gweinidog, sydd gartref erbyn hyn ar ôl bod yn Ysbyty Treforys. Ein cofion cynhesaf atynt i gyd.

Daeth emynau a ganwyd yn **Dechrau Canu Dechrau Canmol** a'r **Oedfa** ar **S4C** sawl tro'n ddiweddar o'r Priordy a hefyd Eglwys San Pedr Caerfyrddin a gwelwyd sawl wyneb cyfarwydd yn y gynulleidfa.

Cafodd y Dr Llinos Roberts wahoddiad gan y gwleidydd Adam Price i gyfrannu blog ar gyfer **Covid Cymru Wales** a phenderfynodd drafod ei gofidiau am y sefyllfa o safbwynt meddyg teulu. Diolch iddi am hynny.

Bu Tudur Dylan Jones ar **Heno** ar **S4C** yn sôn am gefndir a chynnwys ei gerdd *Enfys yn y Ffenest* a chlywsom Einir Dafydd sydd wedi troi'r gerdd yn gân yn ei datgan yn hyfryd wrth gloi'r rhaglen. Gallwch weld geiriau cerdd Dylan yn y Papur hwn.



Bu Dewi Llwyd ar **Dros Ginio cyn dau** ar **Radio Cymru** yn sgwrsio â dwy lengar iawn, sef y fam a'r ferch Menna Elfyn a Fflur Dafydd. Clywsom am eu profiadau llenyddol yn ogystal â'u hynt a'u helynt yn ystod cyfnod y meudwyo.

Gwelwyd Beti-Wyn ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn cael ei holi am ddarpariaethau digidol yr Ofalaeth yn ystod y meudwyo, yn cynnwys oedfaon bore Sul (sy'n denu tua 7000-9000 o ddilynwyr), gweithgarwch ar gyfer plant yr Ysgol Sul a phobl ifainc a chyfleoedd cymdeithasol i'r oedolion,

Braint i Eleri James (sy'n cryfhau ar ôl dal Covid-19) oedd cael bod yn un o dîm a fu'n cymryd rhan yn y fidio arbennig a gynhyrchwyd i gydfynd â cherdd yr Archdderwydd Myrddin ap Dafydd i'r *Tîm lechyd Lleol* a glywyd ar **Raglen Aled Hughes** ar **Radio Cymru** ar y diwrnod a neilltuwyd i gyfarch arwyr BBC Cymru ledled ein gwlad. Bu Eleri hefyd ar **Raglen Pnawn Sadwrn Catrin Angharad** ar **Radio Cymru** yn sôn am ei phrofiad fel nyrs a chafodd y genedl gyfan gyfle i glywed ei datganiad hyfryd o *Calon Lân*!

Bu Beti-Wyn ac Elin Wyn ar **Heno** ar **S4C** ar ddiwrnod codi ymwybyddiaeth am hylendid misglwyf a phwysigrwydd sicrhau nwyddau hylendid ar gyfer ysgolion, lleoedd gwaith a banciau bwyd. A bu Tim Hayes yn adolygu'r tudalenau chwaraeon ar **Dewi Llwyd** ar **Fore Sul** ar **Radio Cymru**

Cyfres ddiddordol ar y we yw honno sy'n cyflwyno drwy destun fidio rai o wynebau cyfarwydd Mudiad Ffermwyr Ifainc Sir Gâr. Cawsom gipolwg diddorol ar fywyd prysur Rhiannon Jones ar fferm y teulu ym Mheniel a dysgu tipyn am fywyd amaethwyr. Da iawn yn wir ond cofia Rhiannon - dim gormod o *Jaffa Cakes*!!

Ein dymuniadau da i'r Cynghorydd Gareth John a'i briod Claire ar gael eu hurddo'n Faer a Maeres Tref Caerfyrddin – y cyntaf mewn cyfarfod **Zoom**. Ein Gweinidog yw Caplan y Maer newydd – swydd a gyflawnodd hefyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio pan oedd y Cynghorydd Jeff Thomas yn Faer. Ac mae'n diolch yn fawr i Jeff ac Eirlys, ei briod, am eu gwaith arbennig a hynny dan amgylchiadau digon anodd tua diwedd eu cyfnod wrth y llyw.

Ymunodd rhai ohonom â Bore Coffi drwy **Zoom** a drefnwyd gan Gymorth Cristnogol Caerfyrddin. Ropedd hefyd gyfle i ni gyflwyno rhoddion i GC ar lein. Gweler y manylion ym Mhapur Priordy - Rhifyn Mai.

Da oedd gweld aelodau'r Priordy ymysg Staff Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn canu *Eryr Pengwern* ar U-Tube. Tipyn o gamp dechnolegol yn ogystal â lleisiol, ddywedwn i!

A diolch i'n Gweinidog am drefnu Paned a Sgwrs i aelodau'r Priordy drwy **Zoom** gan roi cyfle da i ni gwrdd â'n gilydd yn ystod cyfnod y meudwyo!

Llongyfarchiadau mawr i Heledd a Gethin Tomos ar eni Bedw Illtud ar 3 Mai 2020, brawd bach newydd i Myfi a Deio, heb anghofio Cai bach sydd wastad yn ein meddyliau. Pob dymuniad da i'r teulu oddi wrth bawb ohonom yn y Priordy.



/ GLOI, ein dymuniadau gorau i ddau aelod sy'n dathlu pen-blwydd arbennig y mis hwn – Mair Baston (ffigur crwn) ar 22 Mehefin 2020 a June Thomas (ffigur crwn arall) ar 29 Mehefin 2020. Pen-blwydd hapus iawn i'r ddwy ohonoch oddi wrth bob un ohonom yn y Priordy!



**Unrhyw newyddion ar gyfer
rhifyn Gorffennaf / Awst i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Alun Charles ☎ 01267 236037**

EDRYCHWN YMLAEN AT YR AMSER PAN FYDD Y SULIADUR YN AILDDECHRAU

